



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

BWRSARIAETH GIG CYMRU AR GYFER GRADDEDIGION GOFAL IECHYD.

Cefnogi myfyrwyr gofal iechyd i hyfforddi a gweithio yng Nghymru

PAPUR BRIFFIO 2. MEDI 2021

Gwelliannau i'r dull gweithredu Symleiddio Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd yn seiliedig ar werthusiad 2021

Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi crynodeb o'r adborth a ddarparwyd gan fyfyrwyr, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Addysg Uwch (HEIs) yn ystod y symleiddio cyntaf ar gyfer graddedigion Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs) a Gwyddonwyr Gofal Iechyd (HCS) yn 2021. Yn gyffredinol, roedd llawer o'r heriau a'r pryderon a brofwyd yn deillio o'r raddfa amser gyddwysedig y gweithredwyd y dull newydd a chymhleth hwn ynghanol aflonyddwch sylweddol a pharhaus y pandemig. Daeth rhai Byrddau Iechyd ar draws heriau i sicrhau bod digon o swyddi gwag ar gyfer pob myfyriwr graddedig o fewn yr amserlen SSP a bennwyd yn genedlaethol ar gyfer ceisiadau a phenodi. Gan ystyried adborth gwerthuso, mae AaGIC a NWSSP wedi gallu adlewyrchu newidiadau yn y model ac, ar y cyd â Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau, maent yn dechrau'r cam cynllunio i gefnogi'r broses o recriwtio graddedigion newydd gymhwyso yn 2022. Bydd gwerthusiad o gynllun 2022 yn ystod haf 2022.

Canlyniad Symleiddio AHP a HCS 2021.

Mae'r tabl isod yn dangos canlyniad graddedigion i gyflogaeth drwy'r broses symleiddio o fis Ebrill 2021.

	AHP/ HCS
Myfyrwyr a Ddyrannwyd	381
Heb ei ddyrannu	19
Cyfanswm	400
% Cyfradd	95%

Roedd cyfraddau llwyddiant gwahanol i Fyrddau lechyd ar gyfer rhai proffesiynau penodol ac yn gyffredinol roedd symleiddio yn effeithiol fel proses ar gyfer recriwtio. Mae rhai heriau rhanbarthol a brofwyd cyn symleiddio yn parhau ac efallai y bydd angen eu hystyried ymhellach mewn cyd-destun ehangach.

Roedd myfyrwyr yn gwerthfawrogi un broses ymgeisio er y byddent wedi elwa ar wybodaeth fwy cyson yn gynharach yn nhymor yr hydref. Er gwaethaf amheuon cychwynnol, roedd rheolwyr recriwtio a gwasanaeth o'r farn bod un llinell amser ymgeisio yn fuddiol. Croesawyd cyfraniad cwestiynau yn seiliedig ar werth (VBQ) i'r broses rhestr fer, gydag awgrymiadau ar sut y gellid eu gwella trwy fod yn benodol i'r proffesiynau. Roedd recordio fideo eu cyfweiliad yn heriol gan fod hyn wedi cwmpo yn ystod lleoliadau. Roedd cyfle i wella'r cais i alluogi Myfyrwyr i ddangos eu profiadau lleoliad yn well.

Gwneuthur ymdrechion sylweddol i sicrhau bod y broses wedi'i chwblhau erbyn 12 Ebrill 2021. Er gwaethaf hyn, nododd rhai Byrddau lechyd fod eu hymrwymiad i ddal nôl hysbysebu swyddi y tu allan i Gymru rhwng 17eg o Ragfyr ac Ebrill 12fed yn broblemus.

Llenwodd y Byrddau lechyd yn Ne Ddwyrain Cymru'r swyddi gwag. Nododd llawer o arweinwyr y gwasanaeth o'r proffesiynau llai eu bod yn hapus iawn gydag ansawdd yr ymgeiswyr ac roeddent yn teimlo bod y broses hon wedi gweithio'n dda. Nid oedd hyn yn gyffredinol, ac roedd y proffesiynau mwy yn teimlo eu bod wedi colli cyfle i recriwtio graddedigion newydd o faes ehangach o ymgeiswyr o'r tu allan i Gymru. Cydnabyddir y safbwynt hwn gan gydnabod bod methodoleg SSP wedi'i chyfyngu i raddedigion newydd sydd wedi hyfforddi yng Nghymru; ac mae ganddo gysylltiad agos â pholisi Llywodraeth Cymru – cynllun Bwrsariaeth y GIG, sy'n ceisio cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno ymrwymo i weithio yng Nghymru am gyfnod penodol ar ôl cwblhau eu cwrs.

Drwy gydol y broses, tynnodd holl randdeiliaid y Bwrdd lechyd sylw at heriau ymarferol o flaengynllunio swyddi gwag i gyd-fynd â'r niferoedd cynllunio gweithlu/comisiynu addysg a gyflwynwyd yn flaenorol yn 2018. Yn ogystal, roedd yr angen i ddarparu swyddi gwag i gyflogi'r graddedigion hyn ar un adeg yn heriol. Mae ymgysylltu â Byrddau lechyd/Ymddiriedolaethau'r GIG yn parhau i wella'r aliniad hwn a'r cyswllt cyfatebol â SSP.

Cafodd gweithredu'r system newydd yn gyflym ar ddechrau 2021 effaith ar gyfathrebu â myfyrwyr mewn rhai rhaglenni. Mae hyn yn flaenoriaeth o ystyried y straen a brofir eisoes gan fyfyrwyr y flwyddyn olaf ac mae angen cefnogi Sefydliadau Addysg Uwch i gynnig cyngor cywir. Roedd diffyg swyddi gwag a oedd ar gael yn creu pryder i rai myfyrwyr a oedd am sicrhau y byddent yn bodloni Telerau ac Amodau Bwrsariaeth y GIG ac yn sicrhau cyflogaeth mewn modd amserol.

Arweiniodd Telerau ac Amodau Bwrsariaeth y GIG, sy'n benodol i sicrhau cyflogaeth yng Nghymru am o leiaf 22.5awr yr wythnos yn barhaol, at geisiadau i gael eu rhyddhau o'r contract a chlymu i mewn o 18 mis / 2 flynedd.

Gwelliannau ar gyfer 2022. Y rownd nesaf.

O'r gwerthusiad bydd AaGIC a NWSSP yn parhau gyda symleiddio fel y dull recriwtio ar gyfer holl raddedigion 2022. Cynhelir gwerthusiad llawn yn 2022 i weld a yw'r gwelliannau a gynlluniwyd i'r dull gweithredu wedi bod yn effeithiol ac wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd drwy'r gwerthusiad.

Newidiadau/ Addasiadau

- Er mwyn gwella cydgysylltu ac ymgysylltu â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG, Byrddau Iechyd Lleol/Ymddiriedolaethau sefydlir grwpiau gweithredu gydag aelodaeth yn cael ei phennu'n lleol Bydd NWSSP ac AaGIC yn gweithio'n uniongyrchol gyda chydweithwyr yn y gweithlu sydd yn y sefyllfa orau i gydgysylltu'r broses recriwtio ac ymgysylltu â chydweithwyr proffesiynol yn eu sefydliadau eu hunain.
- Bydd cyfres o ddeunydd cyfathrebu a ddatblygwyd ar y cyd gan ddefnyddio ystod o gyfryngau cyfathrebu ar gael drwy'r Hydref i fyfyrwyr a rhanddeiliaid ei defnyddio. Cynhyrchwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Cwestiynau Cyffredin Telerau ac Amodau Bwrsariaeth a bydd cyfres o bapurau briffio yn yr hydref yn helpu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.
- Mae sioeau teithiol a sesiynau holi ac ateb ar-lein hefyd wedi'u cynllunio ar gyfer yr hydref i fyfyrwyr, Sefydliadau Addysg Uwch a'r GIG i ategu'r papurau briffio a'r deunydd cyfathrebu a lanlwythwyd ar dudalennau gwe NWSSP ac AaGIC.
- Gan ystyried adborth gan arweinwyr proffesiynol, bydd sefydlu cwestiynau sy'n benodol i'r proffesiwn yn cael eu datblygu lle bo hynny'n briodol. Mae AaGIC a NWSSP yn cydweithio i ymgorffori hyn yng nghynllun 2022. Arweinwyr proffesiynol sydd yn y sefyllfa orau i osod y cwestiynau ychwanegol hyn
- Bydd Podiatreg ac Awdioleg yn cael eu cynnwys yn y cylch nesaf o symleiddio, gan ddarparu cydraddoldeb â phroffesiynau eraill.
- Mae angen mwy o amser i gyflwyno ac ymgorffori'r rôl newydd esblygol cydymaith meddygol o fewn Byrddau Iechyd. Cynghorir i barhau ac adeiladu ar lwyddiant y flwyddyn flaenorol drwy barhau â'r trefniadau presennol a fydd yn cael eu gwerthuso yn 2022.
- Mae pecyn rhagarweiniol cynhwysfawr wedi'i ddatblygu i'w rannu gyda Bwrdd Iechyd / Grŵp Cyflawni Ymddiriedolaethau gan gynnwys llwybr clir trwy symleiddio gyda rolau a chyfrifoldebau drwyddi.
- Anogir Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau i sefydlu sesiynau ymglyfarwyddo ar gyfer myfyrwyr sy'n ymgymryd â'u lleoliadau mewn sefydliadau eraill.

Rhagor o wybodaeth:

Telerau ac Amodau Bwrsariaeth y GIG.

Bev Frowen: HEIW.bursary@wales.nhs.uk